

ewmpas

Cynyddu Lefelau Cynhwysiant Digidol a
Sgiliau Digidol Sylfaenol – Adroddiad
gwerthuso

Increasing Levels of Digital Inclusion and
Basic Digital Skills – Evaluation Report



1. Crynodeb Gweithredol

Mae'r prosiect 'Cynyddu Lefelau Cynhwysiant Digidol a Sgiliau Digidol Sylfaenol' ledled Sir Ddinbych (Hyder Digidol Sir Ddinbych), sy'n cael ei gyflwyno gan Cwmpas, yn cael ei ariannu gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU ac mae wedi'i gynllunio i wella mynediad at sgiliau digidol ynghyd â mynd i'r afael â diffygion mewn offer i gael mynediad at wasanaethau ar-lein. Fe'i crëwyd i gefnogi trigolion y sir sydd wedi'u hallgáu fwyaf o safbwynt digidol. Cafodd y prosiect ei lansio o dan flaenoriaeth buddsoddi "Pobl a Sgiliau" Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, ac mae'n cefnogi mandad craidd i wella cyfleoedd bywyd trwy rymuso unigolion â'r sgiliau digidol sydd eu hangen ar gyfer bywyd a gwaith bob dydd.

Mae'r adroddiad gwerthuso hwn yn asesu effeithiolrwydd, aliniad strategol ac effeithiau hirdymor y prosiect, gan gynnig cipolwg ar lwyddiannau, heriau a'r gwersi a ddysgwyd trwy gydol y cyfnod o'i reoli.

Trosolwg o'r Prosiect a'i Amcanion

Gyda hyd at 9% o'r boblogaeth ddim ar-lein o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 7%, canolbwyntiodd y prosiect ar fynd i'r afael â chynhwysiant digidol yn Sir Ddinbych. Trwy gael gwared ar rwystrau i wella mynediad at dechnoleg megis mynd i'r afael â diffyg offer neu argaeledd dyfeisiau, darparu hyfforddiant sgiliau digidol a chefnogi cyfranogwyr i ddatblygu hyder a chymhwysedd wrth ddefnyddio offer digidol, roedd y prosiect ar y trywydd cywir i gael effaith sylweddol. Roedd y grwpiau targed allweddol yn cynnwys unigolion hŷn, pobl ag anableddau, trigolion gwledig, unigolion dan anfantais economaidd, pobl â chyrhaeddiad addysgol is, pobl sydd wedi eu hynysu'n gymdeithasol a phobl unig, pobl ddigartref ac eraill na fyddent o bosibl yn defnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg fel eu hiaith gyntaf.

Trwy hyfforddiant digidol strwythuredig, dosbarthu dyfeisiau a chymorth un i un, nod y prosiect oedd arfogi cyfranogwyr oedd wedi'u hallgáu'n ddigidol â'r sgiliau sydd eu hangen i gael mynediad at wasanaethau digidol (bancio, y GIG, cyflenwyr ynni), chwilio am waith, cysylltu â rhwydweithiau cymdeithasol, lleihau unigedd a goresgyn problemau daearyddol gyda chysylltedd megis gwasanaeth 4G cyfyngedig neu ddim gwasanaeth, a chynnig cymorth i ddatblygu sgiliau rhifedd sylfaenol drwy'r fenter "Lluosi".

Methodoleg Gwerthuso

Mae'r gwerthusiad hwn wedi'i strwythuro o amgylch fframwaith chwe cham y Pecyn Cymorth Cynhwysiant Digidol, gan ddefnyddio dulliau cymysg i gasglu data meintiol o adroddiadau cyfnodol a Dangosyddion Perfformiad Allweddol, ochr yn ochr â gwybodaeth ansoddol gan randdeiliaid a buddiolwyr a staff y prosiect. Roedd cyfweiliadau lled-strwythuredig, arolygon buddiolwyr a dadansoddi data ariannol yn allweddol i ddarparu golwg gynhwysfawr ar ganlyniadau ac effaith. Mae'r gwerthusiad hefyd yn defnyddio safonau Llyfr Magenta Llywodraeth y DU, o ran sicrhau arferion asesu cadarn, cyson.

Canfyddiadau Allweddol

Dyluniad ac Aliniad Strategol y Prosiect

Dyluniwyd y prosiect Cynyddu Lefelau Cynhwysiant Digidol a Sgiliau Digidol Sylfaenol ar draws Sir Ddinbych i gyd-fynd yn ofalus â strategaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer cynhwysiant digidol. Aeth i'r afael â blaenoriaethau allweddol a amlinellir yn Strategaeth Ddigidol i Gymru Llywodraeth Cymru, yn enwedig Cenhadaeth 2 (Cynhwysiant Digidol) a 3 (Sgiliau Digidol). Roedd y prosiect yn targedu'r cymunedau sydd fwyaf mewn perygl o allgáu digidol, gan gynnwys oedolion hŷn, trigolion gwledig ac unigolion dan anfantais economaidd. Trwy ddarparu cyfuniad o hyfforddiant personol, dosbarthu dyfeisiau, a mentora un-i-un, aeth y prosiect i'r afael yn strategol â rhwystrau i fynediad digidol, megis diffyg offer, cysylltedd a hyder.

Trwy gyfrwng partneriaethau strategol gyda'r awdurdod lleol, llyfrgelloedd, a sefydliadau cymunedol llwyddwyd i sicrhau allgymorth a darpariaeth effeithiol. Yn ogystal, roedd integreiddio'r Rhaglen Lluosi yn caniatáu ffocws deuol ar rifedd a llythrennedd digidol, gan wella aliniad y prosiect ag amcanion Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) ymhellach.

Cynnydd yn erbyn y Targedau

Cyflawnodd y prosiect y rhan fwyaf o'i dargedau allbwn, a rhagori arnynt:

- Cymryd rhan mewn hyfforddiant sgiliau digidol: Cefnogodd y prosiect dros 350 o unigolion ar gysiau sgiliau bywyd a darparodd hyfforddiant sgiliau digidol hanfodol i 110 o gyfranogwyr, gan ragori ar y rhagamcaniadau cychwynnol.
- Dosbarthu dyfeisiau a data: Dyrannwyd dros £12,000 i ddarparu dyfeisiau a thalebau cysylltedd, gan bontio'r bwlch digidol ar gyfer y rhai mwyaf anghenus mewn ffordd effeithiol.
- Sicrhau cymwysterau: Er bod y Rhaglen Lluosi wedi wynebu heriau wrth gyflawni ei thargedau cymwysterau a thargedau cysylltiedig, roedd y canlyniadau anffurfiol o ran meithrin sgiliau yn sylweddol ond yn anodd eu cofnodi.
- Ymgysylltu â chyfranogwyr: Roedd y sesiynau galw heibio yn arbennig o lwyddiannus, gan amlygu'r galw am opsiynau hyfforddi hyblyg a hygyrch.

Er gwaethaf y llwyddiannau hyn, roedd y nifer a weithiodd tuag at gymwysterau o fewn y Rhaglen Lluosi yn amlygu'r angen am ddulliau wedi'u teilwra i raddau mwy helaeth er mwyn diwallu anghenion penodol cyfranogwyr, yn enwedig oedolion hŷn a'r rhai sydd â hyfedredd digidol cyfyngedig.

Cyflawni a Rheoli

Roedd model cyflawni'r prosiect yn gadarn, gan ysgogi system atgyfeirio a brysbennu ganolog, er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio at y rhai mwyaf anghenus. Roedd nodweddiion allweddol y model cyflawni yn cynnwys:

- Lleoliadau hyfforddiant yn y gymuned: Roedd gweithdai a sesiynau a gynhaliwyd mewn

llyfrgelloedd, hybiau, neuaddau tref a chanolfannau cymunedol yn sicrhau hygyrchedd i gyfranogwyr gwledig a threfol fel ei gilydd.

- Partneriaethau cydweithredol: Hwylusodd partneriaethau gydag awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a sefydliadau cymdeithasol waith allgymorth ac ymgysylltu eang ac roedd yn hanfodol i lwyddiant y prosiect.
- Cefnogaeth wedi'i theilwra: Roedd y prosiect yn darparu hyfforddiant dwyieithog i siaradwyr Cymraeg a deunyddiau wedi'u teilwra ar gyfer cyfranogwyr ag anableddau, gan sicrhau lefel uchel o gynwysoldeb.
- Rheoli adnoddau: Sicrhaodd tîm cydlynol da, gan gynnwys swyddogion hyfforddiant digidol a rheolwr prosiect/rheolwr i reoli'r berthynas â chwsmeriaid, bod y prosiect wedi'i roi ar waith yn hwylus, er gwaethaf heriau fel chwyddiant uchel a pharodwydd digidol cyfyngedig ymhlith y cyfranogwyr.

Effaith a Manteision Hirdymor

Mae'r prosiect wedi darparu manteision uniongyrchol a hirdymor ar draws y dimensiynau cymdeithasol, economaidd ac iechyd:

Effeithiau tymor byr:

- Mwy o hyder a sgiliau digidol ymhlith cyfranogwyr.
- Gwell mynediad at wasanaethau hanfodol, megis apwyntiadau gofal iechyd, apiau'r GIG, presgripsiynau a chyngor meddygol, a bancio ar-lein.
- Lleihau unigedd cymdeithasol, yn enwedig ymhlith oedolion hŷn a thrigolion gwledig.

Effaith a manteision hirdymor:

- Gwell cyflogadwyedd, gwaith gwirfoddol a gwytnwch economaidd oherwydd llythrennedd digidol a sgiliau digidol gwell.
- Ymgysylltu digidol cynaliadwy - nododd cyfranogwyr y defnydd parhaus o ddyfeisiau (iPads, tabledi a Ffonau Clyfar) ac apiau Google, You Tube, Google Maps) a gyflwynwyd yn ystod yr hyfforddiant.
- Cydlyniant cymunedol wedi'i gryfhau trwy hybiau hyfforddi a phartneriaethau lleol.

Ac ystyried aliniad y prosiect â nodau ehangach, mwy generig, megis lleihau anghydraddoldebau a meithrin tegwch digidol, mae wedi gosod sylfaen gadarn ar gyfer mentrau digidol yn y dyfodol yn ardal Cyngor Sir Ddinbych a thu hwnt.

Adenillion ar Fuddsoddiad (ROI)

Dangosodd y prosiect werth sylweddol am arian, gydag adenillion uchel ar fuddsoddiad ar draws y

canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac iechyd:

- Effaith economaidd: Am bob £1 a fuddsoddwyd, amcangyfrifwyd bod £9.48 mewn buddion economaidd wedi'i gynhyrchu, gan gynnwys arbedion cost ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a mwy o weithgarwch economaidd.
- Effaith gymdeithasol: Roedd cynhwysiant digidol wedi meithrin mwy o gyfranogiad cymunedol, ymgysylltu cymdeithasol, a gwell ansawdd bywyd i gyfranogwyr.
- Arbedion iechyd: Roedd mwy o ddefnydd o wasanaethau iechyd ar-lein yn lleihau'r ddibyniaeth ar apwyntiadau wyneb yn wyneb, gan gyd-fynd â strategaethau digidol y GIG a lleihau costau.

Sicrhaodd dyluniad a chyflwyniad cost-effeithiol y prosiect yr effaith fwyaf bosibl o fewn cyfyngiadau cyllidebol, gan fynd i'r afael yr un pryd â bylchau critigol mewn cynhwysiant digidol.

Gwersi a Ddysgwyd ac Argymhellion Allweddol

Datgelodd y prosiect nifer o wersi a chyfleodd i fireinio:

- Heriau ymgysylltu: Roedd oedolion hŷn a'r rhai â phrofiad digidol cyfyngedig yn llai tueddol o ddilyn cymwysterau ffurfiol. Dylai mentrau yn y dyfodol ystyried opsiynau ardystio modiwlaid neu anffurfiol i annog cyfranogiad.
- Dulliau wedi'u teilwra: Roedd dull un-ateb-i-bawb yn llai effeithiol ar gyfer grwpiau amrywiol. Dylid blaenoriaethu llwybrau hyfforddi wedi'u teilwra, fel cyrsiau digidol rhagarweiniol i ddechreuwyr. Roedd sesiynau Galw Heibio Digidol yn llwyddiant ysgubol a dylent fod yn rhan o unrhyw brosiect cynhwysiant digidol o'r math hwn yn y dyfodol.
- Cynaliadwyedd partneriaethau: Roedd partneriaethau cryf gyda sefydliadau lleol yn allweddol i lwyddiant y prosiect. Roedd cynaliadwyedd hirdymor y partneriaethau hyn yn hanfodol ar gyfer cefnogaeth barhaus ar ôl i'r prosiect ddod i ben.
- Gwella allgymorth: Gallai ehangu ymgyrchoedd ymwybyddiaeth wella cyfranogiad, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol.

Argymhellion:

- Datblygu modelau hyfforddi hyblyg o amgylch sesiynau Galw Heibio Digidol i ddarparu ar gyfer lefelau sgiliau digidol amrywiol a chasglu barn ar gyfer anghenion cyrsiau pellach.
- Cynnwys mecanweithiau cymorth ychwanegol, megis sesiynau dilynol neu raglenni mentora

cymheiriaid, gan gysylltu â gwirfoddolwyr Digidol Lleol a allai elwa o hyfforddiant pellach a throsolwg o fuddiolwyr y prosiect.

- Cryfhau'r gwaith casglu data mewn canolfannau a llyfrgelloedd cyn cyfeirio i'r prosiect i olrhain cynnydd cyfranogwyr yn well, cyn ac ar ôl hyfforddiant. Bydd hyn yn helpu i fireinio strategaethau cyflawni a sicrhau bod cylch hyfforddi cyflawn, yn dechrau gydag atgyfeirio hyd at gaffael y cymhwyster a chwblhau'r cwrs, yn cael ei gofnodi.
- Archwilio opsiynau ariannu cynaliadwy i ymestyn cyrhaeddiad ac effaith y prosiect. Cydweithio ac ymgysylltu â GIG Cymru i sicrhau bod amcanion y prosiect yn cyd-fynd â'u mentrau cynhwysiant digidol. Tynnu sylw at sut y gall eich prosiect gefnogi cyflwyno technolegau a meddalwedd modern trwy bontio bylchau digidol, yn enwedig ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed a grwpiau sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.
- Gweithio'n agos gydag Uchelgais Gogledd Cymru i gyflwyno prosiectau yn y dyfodol fel galluogwyr hanfodol ar gyfer eu nodau ehangach, yn enwedig ym maes arloesi gofal iechyd y GIG a hygyrchedd digidol yng Nghymru.

Casgliad

Roedd y prosiect 'Cynyddu Lefelau Cynhwysiant Digidol a Sgiliau Digidol Sylfaenol ar draws Sir Ddinbych' yn llwyddiant ysgubol wrth fynd i'r afael ag allgáu digidol, grymuso cyfranogwyr a chyd-fynd ag amcanion strategol.

Er bod heriau fel ymgysylltu â chymwysterau ffurfiol a chynnal cymorth yn hirdymor yn parhau, darparodd y prosiect effeithiau trawsnewidiol ar draws dimensiynau cymdeithasol, economaidd ac iechyd yn Sir Ddinbych a'r ardaloedd cyfagos.

Trwy fynd i'r afael â'r gwersi a ddysgwyd a gweithredu argymhellion allweddol, gall fersiynau o brosiectau tebyg yn y dyfodol adeiladu ar y sylfaen hon i gyflawni lefelau hyd yn oed yn uwch o gynhwysiant digidol a datblygu cymunedol. Mae cyflawniadau'r prosiect yn fodel ar gyfer pontio'r rhaniad digidol yng Nghymru a thu hwnt.

1. Executive Summary

Delivered by Cwmpas, the 'Increasing Levels of Digital Inclusion and Basic Digital Skills' project across Denbighshire (Digital Confidence Denbighshire) is funded by the UK Shared Prosperity Fund and is designed to enhance access to digital skills along with addressing shortfalls in equipment to access online services. It was conceived to support the county's most digitally excluded residents. Launched under the "People and Skills" investment priority of the UK Shared Prosperity Fund, the project supports a core mandate to improve life chances by empowering individuals with the digital skills needed for everyday life and work.

This evaluation report assesses the project's effectiveness, strategic alignment, and long-term impacts, offering insights into successes, challenges and lessons learnt throughout its management.

Project Overview and Objectives

With up to 9% of the population not online compared with the national average of 7%, the project focused to address digital inclusion in Denbighshire. By removing barriers to improve access to technology such as, addressing the lack of equipment or availability of devices, providing digital skills training and supporting participants in developing confidence and competence in using digital tools, the project was well positioned to create high impact. Key target groups included older individuals, those with disabilities, rural residents, economically disadvantaged individuals, those with lower educational attainment, socially isolated and lonely people, homeless and others who might not use Welsh or English as their first language.

Through structured digital training, device distribution and one-on-one support, the project aimed to equip digitally excluded participants with the skills needed to access digital services (banking, NHS, energy suppliers), seek employment, connect with social networks, reduce isolation and overcome geographical issues with connectivity such as limited or no 4G service whilst offering basic numeracy skills development through the "Multiply" initiative.

Evaluation Methodology

This evaluation is structured around the Digital Inclusion Toolkit's six-step framework, using a mixed methods approach to gather quantitative data from periodic reports and KPI's, alongside qualitative insights from stakeholders and beneficiaries and project staff. Semi structured interviews, beneficiary surveys and financial data analysis were key to providing a comprehensive view of both outcomes and impact. The evaluation also draws on the UK Government's Magenta Book standards, in ensuring robust, consistent assessment practices.

Key Findings

Project Design and Strategic Alignment

Increasing Levels of Digital Inclusion and Basic Digital Skills Across Denbighshire project, was meticulously designed to align with both local and national strategies for digital inclusion. It addressed

key priorities outlined in the Welsh Government's Digital Strategy for Wales, particularly Missions 2 (Digital Inclusion) and 3 (Digital Skills).

The project targeted communities most at risk of digital exclusion, including older adults, rural residents and economically disadvantaged individuals. By providing a combination of in-person training, device distribution, and one-on-one mentoring, the project strategically tackled and identified barriers to digital access, such as lack of equipment, connectivity and confidence.

Strategic partnerships with the local authority, libraries, and community organisations ensured effective outreach and delivery. Additionally, the integration of the Multiply Programme allowed for a dual focus on numeracy and digital literacy, further enhancing the project's alignment with UK Shared Prosperity Fund (UKSPF) objectives.

Progress Against Targets

The project met and exceeded most of its output targets:

- Participation in digital skills training: The project supported over 350 individuals in life skills courses and provided essential digital skills training to 110 participants, surpassing initial projections.
- Device and data distribution: Over £12,000 was allocated to provide devices and connectivity vouchers, effectively bridging the digital gap for those most in need.
- Qualification attainment: While the Multiply Programme faced challenges in meeting its qualification and related targets, informal skill-building outcomes were significant but hard to capture.
- Participant engagement: Drop-in sessions were particularly successful, highlighting the demand for flexible and accessible training options.

Despite these successes, the qualification uptake within the Multiply Programme highlighted the need for more tailored approaches to meet the specific needs of participants, particularly older adults and those with limited digital proficiency.

Delivery and Management

The project's delivery model was robust, leveraging a central referral and triage system, to ensure resources were directed to those most in need. Key features of the delivery model included:

- Community-based training locations: Workshops and sessions held at libraries, hubs, Town Halls, and community centres ensured accessibility for rural and urban participants alike.
- Collaborative partnerships: Partnerships with local authorities, housing associations, and social organisations facilitated widespread outreach and engagement and was essential to the project's success.

- Tailored support: The project provided bilingual training for Welsh speakers and tailored materials for participants with disabilities, ensuring high inclusivity.
- Resource management: A well-coordinated team, including digital training officers and a project manager, CRM manager, ensured smooth implementation, despite challenges like high inflation and limited participant digital readiness.

Impact and Long-Term Benefits

The project delivered immediate and long-term benefits across social, economic and health dimensions:

Short-term impacts:

- Increased digital confidence and skills among participants.
- Improved access to essential services, such as healthcare appointments, NHS apps, prescriptions and medical advice, and online banking.
- Reduction in social isolation, particularly among older adults and rural residents.

Long-term benefits:

- Enhanced employability, volunteer work and economic resilience due to improved digital literacy and digital skills.
- Sustainable digital engagement, participants reported ongoing use of devices (iPad's, tablets and Smart Phones) and applications (Google, You Tube, Google Maps) introduced during training.
- Strengthened community cohesion through local training hubs and partnerships.

Given the project's alignment with broader more generic goals, such as reducing inequalities and fostering digital equity, it has laid a solid foundation for future digital initiatives in the Denbighshire County Council (DCC) area and beyond.

Return on Investment (ROI)

The project demonstrated significant value for money, with a high return on investment across economic, social, and health outcomes:

- Economic impact: For every £1 invested, an estimated £9.48 in economic benefits was generated, including cost savings for public services and increased economic activity.
- Social impact: Digital inclusion fostered greater community participation, social engagement, and improved quality of life for participants.

- Health savings: Increased use of online health services reduced reliance on in-person appointments, aligning with NHS digital strategies and lowering costs.

The cost-effective design and delivery of the project ensured maximum impact within budget constraints, while addressing critical gaps in digital inclusion.

Lessons Learnt and Key Recommendations

The project revealed several lessons and opportunities for refinement:

- Engagement challenges: Older adults and those with limited digital experience were less inclined to pursue formal qualifications. Future initiatives should consider modular or informal certification options to encourage participation.
- Tailored approaches: A one-size-fits-all approach was less effective for diverse groups. Customised training pathways, such as introductory digital courses for beginners, should be prioritised. Digital Drop-in sessions were a real success and should be part of any digital inclusion project of this nature in the future.
- Partnership sustainability: Strong partnerships with local organisations were key to project success. Long-term sustainability of these partnerships was essential for continued support after the project concluded.
- Outreach improvement: Expanding awareness campaigns could enhance participation, particularly in underserved rural areas.

Recommendations:

- Develop flexible training models around Digital Drop-In sessions to accommodate varying digital skill levels and canvas for further course needs.
- Incorporate additional support mechanisms, such as follow-up sessions or peer mentorship programmes, linking in with local Digital volunteers who may benefit from further training and an overview of the beneficiaries of the project.
- Strengthen data collection within hubs and libraries prior to referral into the project to better track participant progress, both before and after training. This will help refine delivery strategies and ensure a complete training cycle, from referral through to qualification and course completion is captured.
- Explore sustainable funding options to extend the project's reach and impact. Collaborations and engagement with NHS Wales to align project objectives with their digital inclusion initiatives. Highlight how your project can support the roll-out of modern technologies and software by bridging digital gaps, particularly for vulnerable and digitally excluded groups.

- Work closely with Ambition North Wales to position future projects as a critical enabler for their broader goals, particularly in NHS healthcare innovation and digital accessibility in Wales.

Conclusion

The 'Increasing Levels of Digital Inclusion and Basic Digital Skills Across Denbighshire' project was a resounding success in tackling digital exclusion, empowering participants and aligning with strategic objectives.

While challenges such as engagement in formal qualifications and sustaining long-term support remain, the project delivered transformative impacts across social, economic and health dimensions within Denbighshire and surrounding areas.

By addressing lessons learnt and implementing key recommendations, future iterations of similar projects can build on this foundation to achieve even greater levels of digital inclusion and community development. The project's achievements serve as a model for bridging the digital divide in Wales and beyond.